Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **26 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Rheolau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Mae'r offerynnau a ganlyn yn cael eu diwygio:

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 480/2014;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 215/2014;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 240/2014;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 821/2014;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 964/2014;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2015/1076; a
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2015/1516).

Mae'r offerynnau a ganlyn yn cael eu dirymu:

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 184/2014;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1011/2014; a
- Phenderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2014/660.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae swyddogaethau mewn perthynas â gweinyddu'r polisi amaethyddol cyffredin wedi'u trosglwyddo gan yr offeryn hwn i'r graddau y maent yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn unig.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r offeryn hwn yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE. Mae'n ymdrin â chywiriadau sy'n dechnegol o ran eu natur ac nad ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau polisi arwyddocaol. Mae'r cywiriadau hyn, yn hytrach, yn addasu

Rheoliadau'r UE sydd wedi'u dargadw i gynnwys telerau (cytunedig) newydd i sicrhau y bydd rhaglenni Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) yr UE sydd eisoes yn bodoli yn parhau i gael eu cyllido am weddill rhaglen 2014 i 2020, os na fydd cytundeb o ran Brexit. Yr OS hwn yw ail Offeryn Statudol cywiro'r DU sydd wedi'i gynnwys yn rhan o'r pecyn ehangach i gywiro'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-european-structural-and-investment-funds-common-provisions-rules-etc-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.